**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg
Llywodraeth Cymru

21 Mawrth 2019

Annwyl Kirsty

**Y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)**

Fel y gwyddoch, rydym wrthi'n cymryd tystiolaeth ar y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru), a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 12 Chwefror 2019.

Mae Rhan 3 o'r Bil yn ymwneud ag etholiadau ac yn cynnwys darpariaethau i estyn yr oedran pleidleisio i bobl 16 a 17 oed. Mae hyn yn newid cyfansoddiadol sylweddol ac rydym yn awyddus i drafod i ba raddau y bydd addysg wleidyddol yn bwysig wrth annog pobl ifanc i arfer yr hawl i bleidleisio, os daw'r Bil yn gyfraith.

Yn sgil eich cyfrifoldeb am bolisi addysg a'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru, hoffem eich gwahodd i roi tystiolaeth ar Ran 3 o'r Bil fore Llun 29 Ebrill 2019, fel y gallwn drafod y materion hyn â chi'n fanwl.

Felly, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cadarnhau eich bod yn fodlon rhoi tystiolaeth ar y Bil ac, os ydych, a allai eich swyddfa breifat wneud trefniadau

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

gyda'r Clerc ynghylch amser addas.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol.

Yn gywir

**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.